Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 106

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A483 a’r A458 (Y Trallwng, Powys) (Dileu Cyfyngiadau) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *7 Mai 2026* |
| *Yn dod i rym* | *11 Mai 2026* |

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 106

## The A483 & A458 Trunk Roads (Welshpool, Powys) (Derestriction) Order 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *7 May 2026* |
| *Coming into force* | *11 May 2026* |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 106

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A483 a'r A458 (Y Trallwng, Powys) (Dileu Cyfyngiadau) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *7 Mai 2026* |
| *Yn dod i rym* | *11 Mai 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o gefnffyrdd yr A483 a'r A458, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 82(2) a 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A483 a'r A458 (Y Trallwng, Powys) (Dileu Cyfyngiadau) 2026 a daw i rym ar 11 Mai 2026.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y cefnffyrdd" yw cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion a chefnffordd yr A458 Amwythig i Ddolgellau.

### Dileu cyfyngiadau

**3.** Bydd y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffyrdd cyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984.

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 82(2) a 83(1) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 59(3) a 60(2) o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
7 Mai 2026
Llywodraeth Cymru

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# YR ATODLEN

Y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o bwynt 168 o fetrau i'r de-orllewin o ymyl gogledd-ddwyreiniol yr ynys hollti ar ochr dde-orllewinol Cylchfan Sarn-y-bryn-caled, y Trallwng hyd at bwynt 166 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ymyl de-orllewinol yr ynys hollti ar ochr ogledd-ddwyreiniol y gylchfan honno.

Cerbytffordd gylchredol Cylchfan Sarn-y-bryn-caled yr A483/A458, y Trallwng.

Y darn o gefnffordd yr A458 sy'n ymestyn i'r gogledd am bellter o 199 o fetrau o ymyl deheuol yr ynys hollti ar ochr ogleddol Cylchfan Sarn-y-bryn-caled, y Trallwng.

Y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o bwynt 93 o fetrau i'r de o ymyl gogleddol yr ynys hollti ar ochr ddeheuol Cylchfan Buttington Cross, i'r gogledd o'r Trallwng hyd at bwynt 86 o fetrau i'r gogledd o ymyl deheuol yr ynys hollti ar ochr ogleddol y gylchfan honno.

Cerbytffordd gylchredol Cylchfan Buttington Cross yr A483, i'r gogledd o'r Trallwng.

Y darn o gefnffordd yr A458 sy'n ymestyn o ymyl dwyreiniol yr ynys hollti ar ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Buttington Cross, i'r gogledd o'r Trallwng am bellter o 40 metr.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 106

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A483 & A458 Trunk Roads (Welshpool, Powys) (Derestriction) Order 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *7 May 2026* |
| *Coming into force* | *11 May 2026* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the A483 and A458 trunk roads, in exercise of the powers conferred upon them by sections 82(2) and 83(1) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

The Welsh Ministers have given public notice of their intention to make this Order in accordance with section 83(1) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A483 & A458 Trunk Roads (Welshpool, Powys) (Derestriction) Order 2026 and it comes into force on 11 May 2026.

### Interpretation

**2.** In this Order—

"the trunk roads" means the A483 Swansea to Manchester trunk road and the A458 Shrewsbury to Dolgellau trunk road.

### Derestriction

**3.** The lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order shall cease to be restricted roads for the purposes of section 81 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

(**1**) 1984 c. 27; sections 82(2) and 83(1) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 59(3) and 60(2). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
7 May 2026
Welsh Government

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# SCHEDULE

The length of the A483 trunk road that extends from a point 168 metres south-west of the north-eastern edge of the splitter island on the south-western side of Sarn-y-bryn-caled Roundabout, Welshpool to a point 166 metres north-east of the south-western edge of the splitter island on the north-eastern side of that roundabout.

The circulatory carriageway of the A483/A458 Sarn-y-bryn-caled Roundabout, Welshpool.

The length of the A458 trunk road that extends north for a distance of 199 metres from the southern edge of the splitter island on the northern side of Sarn-y-bryn-caled Roundabout, Welshpool.

The length of the A483 trunk road that extends from a point 93 metres south of the northern edge of the splitter island on the southern side of Buttington Cross Roundabout, north of Welshpool to a point 86 metres north of the southern edge of the splitter island on the northern side of that roundabout.

The circulatory carriageway of the A483 Buttington Cross Roundabout, north of Welshpool.

The length of the A458 trunk road that extends from the eastern edge of the splitter island on the north-eastern side of Buttington Cross Roundabout, north of Welshpool for a distance of 40 metres.